

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2015

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd) Y Cynghorydd John Griffith (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr Alun Mummery, Richard Owain Jones, Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes
WRTH LAW:	Prif Weithredwr (ar gyfer eitem 3) Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3) Pennaeth Archwilio Mewnol (MH) Rheolwr Archwilio (SP) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Mr Andy Bruce (SAC), Mr Martin George (PwC), Mrs Lynn Pamment (PwC)
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio)

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION CYFARFOD 23 MEDI, 2015

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2015.

Yn codi o'r cofnodion -

- Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 bod y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro, cyn gadael ei swydd, wedi ysgrifennu at y Prif Gwnstabl i geisio sicrwydd bod yr ymchwiliad i ymgais i dwyllo Cyngor Sir Ynys Môn (ac eraill) yn mynd rhagddo. Cyfarfu Prif Arolygydd Lleol gyda'r Pennaeth Adnoddau a'r Rheolwr Archwilio yr wythnos ddiwethaf i roi adroddiad llawn am yr hyn yr oedd yr ymchwiliad wedi ei olygu a chanlyniad hynny. Cafwyd adroddiad ar y manylion gan y Swyddog. I grynhoi, mae'r arian a gafwyd drwy dwyll (er, yn achos Ynys Môn, ni chollwyd unrhyw arian) fel arfer yn cael ei symud o gyfrif i gyfrif ac, yn y pen draw, allan o'r wlad. Gan fod awdurdodau lleol yn fwy effro i'r risg o achosion o dwyll fel hwn, mae'r troseddwr yn targedu sefydliadau eraill. Oherwydd nad oedd y Cyngor wedi sôn am yr ymgais i dwyllo am ddau fis, roedd yr oedi yn lleihau'r tebygolrwydd o ganlyniad cadarnhaol o ran dod o hyd i'r twyllwyr a'u harestio. Yn y dyfodol, bydd gweithredoedd o'r fath yn cael eu hanfon at Action Fraud am sylw.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ac roedd yn derbyn bod yr Heddlu wedi gwneud cymaint â phosibl o dan yr amgylchiadau a bod angen i'r Awdurdod ddysgu gwersi o'r profiad yn enwedig o ran sicrhau bod mesurau diogelu yn eu lle ac yn gadarn, cryfhau rheolaethau mewnol a gweithredu'n brydlon pan ddeuir o hyd i unrhyw beth o'i le.

- Mewn perthynas â'r cais a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol am restr o'r asedau sydd ar werth gan yr Awdurdod yn dilyn pryderon nad ydynt yn cael eu gwerthu yn ddigon

cyflym, dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 bod rhestr o'r fath ar gael ond mae'n ddogfen sylweddol a manwl iawn ac efallai na fydd yn cynnwys yr hyn y mae'r Pwyllgor yn chwilio amdano, sef gwybodaeth gryno am yr asedau sydd ar werth gan yr Awdurdod a marchnata'r asedau hynny. Cyfeiriodd y Swyddog y Pwyllgor at adroddiad a gyhoeddwyd gan y Panel Canlyniad Sgriwtini ar waredu asedau sydd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 14 Rhagfyr ac sy'n nodi canfyddiadau ac argymhellion y Panel yn dilyn ei ymchwiliad i'r modd y mae'r Awdurdod yn ymdrin â'i asedau, gan gynnwys y broses o'u gwerthu.

Derbyniodd y Pwyllgor gyngor y Swyddog a chytunwyd y byddai ei Aelodau yn unigol yn cyfeirio at adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini.

3 ARCHWILIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Cyflwynwyd er sylw'r Panel - adroddiad y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd yn ymgorffori adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Wasanaeth Gorfodaeth Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Ynys Môn yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, 2014. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y Cynllun Gweithredu a luniwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ynghyd â diweddariad ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion hynny.

Adroddodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd fod yr archwiliad yn cynnwys trefniadau Ynys Môn ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid, sef swyddogaethau sy'n cael eu darparu gan adain Gwarchod y Cyhoedd yn yr Adran Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Ar y pryd, roedd y gwaith yn cael ei wneud gan swyddogion yn y timau lechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach. Derbyniwyd adroddiad ffurfiol yr ASB ar 21 Gorffennaf, 2015. Cyfeiriodd y Swyddog at ganfyddiadau'r archwiliad a'r argymhellion ynddo fel y cânt eu crynhoi dan baragraff 2.2 o'r adroddiad ac mae Cynllun Gweithredu manwl wedi cael ei lunio mewn ymateb (Atodiad A yr Adroddiad ASB). Dechreuwyd mynd i'r afael â'r argymhellion yn dilyn y sesiwn atborth anffurfiol a gynhaliwyd gan Archwilwyr ASB ar 18 Gorffennaf, 2014. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi bod yn ddogfen fyw ac wedi cael ei diweddarau yn rheolaidd wrth i'r camau y cytunwyd arnynt gael eu cwblhau; gweler y fersiwn ddiweddaraf yn Atodiad 1.

Dywedodd y Swyddog wrth y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed o natur weithdrefnol ac wedi cael sylw. Fodd bynnag, erys pryderon ynghylch digonolrwydd yr adnoddau staffio i gynnal archwiliadau Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ac mae dadansoddiad cyfredol yn dangos bod yr adain yn brin o 2 swyddog. Mae'r gwasanaeth yn y broses o drawsnewid er mwyn rhoi sylw i heriau o'r fath; er gwaethaf hynny, mae'n debygol y bydd bwllch o hyd o ran adnoddau hyd yn oed gyda gweithlu sy'n fwy ystyryth, modern a hyblyg. Mae'r camau lliniaru'n ymwneud â sicrhau bod staff yn cael eu defnyddio yn unol â thystiolaeth dda a blaenoriaethau. Oherwydd nad yw'r dull symlach hwn eto wedi'i brofi a'r broses drawsnewid yn parhau i fod yn anghyflawn, yr ateb tymor byr yw cyflogi staff asiantaeth. Bydd yr ASB yn dychwelyd i asesu cynnydd yn erbyn yr adroddiad llawn yn ffurfiol cyn 31 Mawrth 2016.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y materion canlynol ar hynny -

- O gymharu ag awdurdodau tebyg eraill, a yw'r sefyllfa staffio'n broblem benodol i'r awdurdod hwn ac a oes amserlen ar gyfer elwa o hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio fel y gall swyddogion fod yn amlswyddogaethol. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd bod staffio yn broblem gyffredinol. Bwriedir cwblhau'r ailstrwythurriad o'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ym mis Ionawr, 2016 ac wedi hynny rhoddir sylw i hyfforddiant ac arferion gwaith. Un broblem o ran materion Hylendid Bwyd yw bod angen i swyddogion fod yn swyddogion iechyd yr amgylchedd cymwys a phrofi eu cymhwysedd yn barhaus, felly rhaid cael system hyfforddiant rheolaidd a bydd angen ymestyn hynny i aelodau eraill y tîm.
- A yw cydweithio yn ateb posibl i anawsterau staffio yn enwedig o ddefnyddio adnoddau i dalu am absenoldebau, ee absenoldeb mamolaeth. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd y gellir darparu rhai agweddau ar orfodi a rheoleiddio ar draws ardal ehangach ond bod gwaith archwilio, yn arbennig o safbwynt Hylendid Bwyd yn tueddu i gael ei wneud yn lleol. Mae awdurdodiadau trawsffiniol wedi cael eu cyflwyno sy'n golygu y gall swyddogion i weithio yn unrhyw un o'r chwe awdurdod Gogledd Cymru. Fodd bynnag, o gofio bod cymhwysedd yn allweddol o ran Hylendid Bwyd, yr hyn sy'n cael ei ystyried yw'r posibilrwydd o gyfuno gwasanaethau arbenigol fel y gellir rhannu arbenigedd yn cael ei rannu a gofyn amdano pan fydd angen.

- Nododd y Pwyllgor gyda phryder bod y gwasanaeth yn cael ei lesteirio gan faterion sylfaenol sy'n ymwneud â chapasiti a graddfa'r gwaith a chan lefelau tâl anghystadlueol sy'n gwneud recriwtio yn fwy anodd. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd na fydd ailhyfforddi swyddogion i ymgymryd ag agweddau eraill ar y gwaith yn rhoi baich ychwanegol ar staff. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd, er bod risgiau yn uchel o ran staff yn gadael, bod Gwarchod y Cyhoedd yn llwyddo'n dda i ddal gafael yn ei staff ac mae proses o ddatblygu staff a chynllunio olyniaeth ar gael. Mae anawsterau'n fwy tebygol o godi mewn amgylchiadau lle gallai staff efallai adael yn sydyn. O ran ymdrin ag ystod o ddyletswyddau, dywedodd y Swyddog y dylai rheoleiddiad un cyffyrddiad leihau'r pwysau o ran galw ac mae hefyd yn fater o flaenoriaethu llwyth gwaith i gyflawni yn unol â'r rheoliadau.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr incwm o tua £ 12k a dderbyniondd y gwasanaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer cynnal arolygiadau yn adlewyrchiad teg o'r costau dan sylw. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd fod Hylendid Bwyd Anifeiliaid yn agwedd llawer llai o'r gwasanaeth na Hylendid Bwyd sy'n cynnwys oddeutu 500 o ymweliadau y flwyddyn (o gymharu â 100 ar gyfer Hylendid Bwyd Anifeiliaid). Mae'r cyntaf yn bwysig o ran cynnal cyfanrwydd y gadwyn fwyd. Fodd bynnag, nid ystyrir bod yr incwm sy'n deillio o'r gwaith arolygu yn ddigonol i adennill y costau y mae'r gwaith yn ei olygu.

Penderfynwyd derbyn adroddiad Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd a nodi ei gynnwys.

GWEITHREDU: Y Pwyllgor i gael diweddariad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu.

4 ARCHWILIO ALLANOL - LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2014/15

Cafodd y Llythyr Archwilio Blynnyddol ar gyfer 2014/15 ei gyflwyno i'r Pwyllgor a'i nodi ganddo.

Cadarnhaodd y Llythyr Archwilio'r canlynol -

- Bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.
- Bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.
- Bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi, 2015.
- Nid oedd y gwaith a wnaed hyd yn hyn ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion o bwys a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015/16 neu systemau ariannol allweddol.

DIM GWEITHREDU PELLACH

5 ARCHWILIO ALLANOL - TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO

- Cyflwynwyd a nodwyd gan y Pwyllgor - Tystysgrif Cydymffurfiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cadarnhau bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi asesiad o'i berfformiad am 2014/15 cyn 31 Hydref, 2015 yn y flwyddyn ariannol.
- Cyflwynwyd y diweddariad ar Raglen Waith Perfformiad Archwilio Allanol ac fe'i nodwyd.

DIM GWEITHREDU PELLACH

6 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad yr Adain Archwilio Mewnol ar waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Hydref, 2015.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a thynnodd sylw at y materion canlynol -

- Gan gyfeirio at dargedau perfformiad, nododd y Pwyllgor fod cynnydd wedi'i lesteirio gan lefel uwch na'r disgwyl o salwch yn y gwasanaeth a bod swydd wag wedi bod yn y Tîm (sydd, ers hynny, wedi cael ei llenwi). Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

adnoddau staffio digonol i allu cyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys y gwaith o gyflawni'r Cynllun Archwilio'n effeithiol ac a fyddai'n bosib petai raid, yn y tymor byr, droi at swyddog archwilio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel y corff sy'n darparu'r swyddogaeth rheoli archwilio mewnol yn Ynys Môn.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol nad oes modd rhagweld absenoldeb salwch ac o'r herwydd, mae'n anodd cynllunio ar ei gyfer. Nid bwriad y trefniant gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd dod â swyddog i mewn i bontio'r bwch a bod yn rhaid i'r adnoddau sydd eisoes ar gael yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn Ynys Môn gael eu rheoli mor effeithiol ag sy'n bosibl. Y mater ar gyfer y Pennaeth Archwilio Mewnol a Phennaeth Adnoddau yw a yw'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn Ynys Môn yn cael ei gyfarparu'n ddigonol i roi digon o sylw i weithgareddau ar Ynys Môn i ddarparu'r lefel o sicrwydd y gofynnir amdani ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cwrdd â gofynion y Cynllun Archwilio yn unol â'r mandad ond gall y sefyllfa newid, er enghraifft, oherwydd gwaith ychwanegol heb ei gynllunio; mae'n rhan o rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol i sicrhau bod y lefel o sylw archwilio erbyn diwedd y flwyddyn yn ddigonol i ddarparu sail gadarn ar gyfer y farn am y lefel o sicrwydd y mae Archwilio Mewnol yn ei ddarparu.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 fod angen i'r Swyddog Adran 151 ac Archwilio Allanol fod yn fodlon bod yr Uned Archwilio Mewnol yn gallu rhoi iddynt y lefel angenrheidiol o sicrwydd, fel arall bydd raid ystyried rhoi adnoddau ychwanegol i Archwilio Mewnol. Nid yw'r pwynt hwn wedi ei gyrraedd eto. Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi cyflogi cyfrifydd dan hyfforddiant sy'n treulio cyfnodau o waith yn holl adeiniau'r Adran Gyllid ac a fydd, fel rhan o'r rhaglen hyfforddi, yn symud yn o fuan i'r Adain Archwilio Mewnol yn fuan a thrwy hynny yn rhoi gwasanaeth ychwanegol.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch i ba raddau y mae gwaith archwilio heb ei gynllunio yn ei gael ar Cynllun Archwilio ac effaith hynny, yn arbennig mewn perthynas â gwaith grantiau a amlinellir yn Atodiad B a gofynnodd a ddylai'r grantiau hyn gael eu ffactora i mewn i'r Cynllun Archwilio oherwydd eu bod yn rhai parhaus y gwyddys amdanynt ac nid yn rhai ad-hoc. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod y gwaith grant yn cynnwys gwaith a wnaed yn flaenorol gan yr Archwilyr Allanol a bod y ffi weinyddol wedi'i chynnwys yn y grant. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 fod y gwaith yn annisgwyl o ran ei amseriad; awgrymodd y Swyddog bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad yn amlinellu'r broses ar gyfer archwilio grantiau a sut y bodlonir disgwyliadau Swyddfa Archwilio Cymru a chytunwyd i hynny.
- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y crynodeb o argymhellion archwilio a lefelau sicrwydd fel y cânt eu hamlinellu yn Atodiad D a'r negeseuon allweddol yn codi o hynny a gofynnodd am eglurhad ar y sefyllfa mewn perthynas ag argymhellion sy'n sy'n parhau i fod heb eu gweithredu. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151, o ran argymhellion sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Cyllid a nodir fel rhai sydd heb eu gweithredu, y bydd yr archwiliadau dilynol yn dangos y bydd llawer o'r rhain wedi cael eu gweithredu naill ai'n unol â'r argymhelliad neu mewn ffyrdd eraill a fydd yn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd. Mewn perthynas â dyledwyr, mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn ac i leihau balans y dyledion drwy adennill dyledion neu ddileu'r rhai nad oes modd eu hadennill. Mae gwasanaethau bellach â gwybodaeth gywirach o lawer ar lefel y dyledion yn eu gwasanaethau ac mae systemau megis debyd uniongyrchol a rhagdaliadau yn hwyluso'r broses o gasglu incwm yn brydlon.
- Nododd y Pwyllgor yr ystyrir bod Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes TGCh yn parhau i fod yn feysydd lle mae lefel sicrwydd yn gyfyngedig ac fe'u nodwyd gan y Pwyllgor fel materion sy'n achosi pryder dro ar ôl tro. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai yn awr ddefnyddio'i awdurdod i ddal Rheolwyr i gyfrif am yr ymateb annigonol i argymhellion Archwilio Mewnol i wella'r system o reolaethau yn y ddau faes hyn ac oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig, dylent hefyd gael eu tynnu sylw at sylw'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth fel materion sydd angen sylw. Dywedodd y Rheolwr Archwilio y byddai'n ymdrechu i gwblhau'r archwiliadau dilynol ar Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes TGCh mewn pryd ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror, 2016.
- Nododd y Pwyllgor y bernir bod y lefel sicrwydd ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth yn ddigonol ond bod y negeseuon allweddol o'r Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth yn parhau i fod yn negyddol i raddau helaeth. Hysbyswyd y Pwyllgor bod cwmpas yr adolygiadau a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2012 a 2013/14 mewn perthynas â Llywodraethu Diogelu

Data a Rheoli Cofnodion yn wahanol i'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Mewnol a oedd yn edrych ar gydymffurfiaeth gyda'r polisiau presennol. Cyhoeddwyd rhybudd gorfodaeth SCG ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ar yr adolygiad drafft gan yr Uned Archwilio Mewnol. Mae'r gwaith ar lywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n ymwneud â'r rhybudd gorfodaeth ac argymhellion yr adolygiad Archwilio Mewnol yn cael ei gyflawni dan oruchwyliaeth bwrd. Awgrymwyd a chytunwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn diweddariad ar faterion cydymffurfiaeth gyda gofynion Llywodraethu Gwybodaeth yn ei gyfarfod nesaf fel ei bod yn glir ble mae'r Awdurdod yn hyn o beth.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad cynnydd a nodi ei gynnwys.

CAMAU GWEITHREDU YN CODI:

- **Bod yr archwiliadau dilynol mewn perthynas ag Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes TGCh yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.**
- **Dylid gofyn i'r Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh fynychu'r cyfarfod nesaf i roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r ddau faes uchod.**
- **Rhoi gwybod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am bryder parhaus y Pwyllgor mewn perthynas ag Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes TGCh fel meysydd risg uchel sydd angen sylw.**
- **Y dylid gofyn i Bennaeth Busnes y Cyngor ddiweddarau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar y sefyllfa o ran cydymffurfio gyda gofynion Llywodraethu Gwybodaeth.**
- **Bod y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 yn darparu adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar y broses mewn perthynas ag archwilio grantiau a sut y bodlonir disgwyliadau Swyddfa Archwilio Cymru.**

7 ADOLYGU'R PROTOCOL ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylw'r Pwyllgor - Adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys Protocol Archwilio Mewnol diwygiedig.

Adroddodd y Rheolwr Archwilio na feddir gwella'r fframwaith rheolaeth fewnol neu ostwng y risgiau cysylltiedig hyd oni fydd argymhellion wedi cael eu gweithredu'n llawn. Mae Proses Dilyn i Fyny a Monitro i roi sicrwydd bod yr argymhellion y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu yn yr Adroddiad Terfynol wedi ei hamlinellu ym mharagraffau 10 a 11 o'r Protocol Archwilio Mewnol fel y'i cyflwynwyd. Mae'r gweithdrefnau Dilyn i Fyny ar gyfer sefydliadau (Cartrefi Henoed a Phlant, Canolfannau Gofal Dydd, Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac ati) yr un fath ar wahân i archwiliadau ysgol sy'n cael eu hegluro ym mharagraff 6, tudalen 13 o'r Protocol.

O ran gwaith yr Uned Archwilio Mewnol ac yn benodol y Cynllun Gwaith Archwilio, nododd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol, wrth gymeradwyo'r Cynllun Archwilio, pe bai'n cael y cyfle yn gynharach yn y broses i roi mewnbwn, sef yn ystod y cyfnod sgopio, fel y gall fodloni ei hun bod y meysydd a nodwyd fel rhai problemus neu lle mae'r canfyddiadau'n awgrymu y dylid monitro'n fanylach y system o reolaethau mewnol sydd ei hangen yn cael eu cynnwys yn y Cynllun ac yn mynd i'r afael â'r anghenion sy'n codi. Ar hyn o bryd mae'r cynllun gwaith yn cael ei gyflwyno fel "fait accompli." Dywedodd y Rheolwr Archwilio nad oedd y Cynllun Gwaith yn sefydlog ac y byddai'n dod â'r Cynllun Archwilio Strategol i'r Pwyllgor nesaf.

Penderfynwyd derbyn y Protocol Archwilio Mewnol fel y'i cyflwynwyd.

Dim gweithredu pellach.

**Cynghorydd R.Llewelyn Jones
Cadeirydd**